Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru 2020 i 2040

Y pethau y mae arnon ni angen meddwl amdanyn nhw wrth gynllunio pethau fel tai, adeiladau a chyflenwadau trydan



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **'Fframwaith Datblygu Cenedlaethol'** Llywodraeth Cymru
Awst 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair. Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl ar dudalen 32.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfeiriad: Adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3 NQ

Gwefan: www.llyw.cymru

E-bost: ffdc@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-83876-650-4
WG38379
ISBN argraffu 978-1-83876-660-3

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon 2

Cyflwyniad 4

Cynlluniau a deddfau pwysig eraill 6

Nodau'r cynllun 7

Heriau a chryfderau 9

1. Ble bydd Cymru yn tyfu? 12

Trefi a dinasoedd 12

Cymunedau cefn gwlad 13

Y rhanbarthau 13

Gogledd Cymru 14

Canolbarth a De-orllewin Cymru 18

De-ddwyrain Cymru 20

2. Y ffordd rydyn ni'n cynllunio a rheoli twf 24

Twf sy'n para mewn trefi a dinasoedd 25

Rhoi cefnogaeth i gymunedau yng nghefn gwlad 26

Signal ffôn symudol 27

Cerbydau ynni glân 27

Mannau gwyrdd 28

Fforest Genedlaethol 28

Ynni glân 29

Rhwydweithiau Gwres 31

Geiriau Anodd 32



Cyflwyniad

Mae arnon ni eisiau i Gymru fod y lle gorau y gall fod yn 2040.



Mae arnon ni angen meddwl am yr holl wasanaethau sydd eu hangen ar y bobl i fyw bywydau da. Er enghraifft:

- Tai.
- Ffyrdd.
- Gwasanaethau iechyd.
- Cyflenwad ynni.
- Trafnidiaeth gyhoeddus.
- Signal ffonau symudol.
- Y Rhyngrwyd.



A sut gallwn ni dyfu a newid y pethau hyn i wneud lleoedd yng Nghymru yn wych.



Mae arnon ni eisiau i Gymru fod yn lle da i'r bobl sy'n byw yma ar hyn o bryd a'r bobl fydd yn byw yma yn y dyfodol.



Dros yr ugain mlynedd nesaf mae arnon ni angen meddwl **ble** mae twf a newid yn digwydd.



Ac **ym mha ffordd** rydyn ni'n mynd i gynllunio a rheoli twf fel bo popeth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. A gallwn:



- wneud llawer mwy o ynni glân i'w ddefnyddio



- tyfu ein trefi a'n dinasoedd



- rhoi rhesymau i bobl ifainc aros yng ngefn gwlad



- gwneud cludiant yn lanach ac yn fwy iach. Ar gyfer yr **amgylchedd** a'r bobl.

> Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw ynddo. Yr **amgylchedd** yw'r tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw ynddo ac arno, fel planhigion, anifeiliaid a physgod.



Mae'r cynllun hwn yn cael ei rannu'n ddwy ran:

1. **Ble y bydd Cymru'n tyfu**
2. **Sut y byddwn ni'n cynllunio ac yn rheoli twf**

Cynlluniau a deddfau pwysig eraill




Mae'r cynllun hwn ar gyfer Cymru i gyd. Bydd cynlluniau llai i'w cael fydd yn dweud mwy ynglŷn â **beth** fydd yn digwydd a **ble** bydd pethau'n digwydd.

Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu galw'n:



- **Cynlluniau Datblygu Strategol** – Mae'r cynlluniau hyn ar gyfer pob **rhanbarth** yng Nghymru.

> Ar gyfer y gwaith hwn mae Cymru'n cael ei rannu'n dair **rhanbarth** – **Gogledd Cymru**, **Canolbarth a De-orllewin Cymru** a **De-ddwyrain Cymru**.



- **Cynlluniau Datblygu Lleol** – Mae'r cynlluniau hyn ar gyfer pob ardal cyngor yng Nghymru.



Mae'r cynllun hwn hefyd yn cefnogi gwaith deddfau a chynlluniau pwysig eraill yng Nghymru.



Nodau'r cynllun

Mae arnon ni eisiau i'r cynllun hwn helpu i wneud Cymru yn lle gwych yn 2040. Mae arnon ni eisiau:



1. Cymru ble mae pobl yn teimlo eu bod mewn cysylltiad ac yn cael eu cynnwys.



2. Cymru ble gall pobl fyw'n hapus yng nghefn gwlad. A chael cartrefi da, gwaith a gwasanaethau.



3. Cymru ble mae pobl yn cael yr un cyfleoedd ble bynnag maen nhw'n byw.



4. Iaith Gymraeg gref.



5. Cymru ble rydyn ni'n rhoi sylw i newid a thwf mewn trefi a dinasoedd.



6. Cymru ble gall pobl lwyddo a bod yn greadigol.



7. Teithio sydd yn dda i'r amgylchedd y gallwn ni ddal i'w ddefnyddio yn y dyfodol.



8. Rhyngrwyd da a defnyddio **technoleg** newydd.

> **Technoleg** yw pethau fel cyfrifiaduron, periannau ac offer.



9. Gofalu am **gyfoeth naturiol**. A chael llai o **lygredd**.

> Mae **cyfoeth naturiol** yn bethau fel gwynt, yr haul, glo a haearn. Maen nhw'n dod o fyd natur a gallwn eu defnyddio ar gyfer pethau fel ynni, pŵer a bwyd.
>
> Mae **llygredd** yn digwydd pan fydd unrhyw beth sy'n niweidio'r amgylchedd yn cael ei ollwng iddo. Er enghraifft, nwyon fel **carbon**.





10. Bywyd da a chryf gan anifeiliaid a phlanhigion.




Heriau a chyfderau

Er mwyn cyrraedd y nodau hyn mae arnon ni angen meddwl am ein heriau a'n cryfderau:



- Mae mwy a mwy o bobl yn byw yng Nghymru. Ac maen nhw'n mynd yn hŷn.



- Mae arnon ni eisiau i filiwn o bobl siarad Cymraeg erbyn 2050.



- Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn cael yr un cyfle i wneud yn dda mewn bywyd. Ble bynnag maen nhw'n byw.




- Mae arnon ni angen defnyddio'n cyfoeth naturiol yn ofalus er mwyn iddyn nhw ddal i fod ar gael yn y dyfodol. A chymryd gofal o'n tir, ein harfordir a'n hamgylchedd.



- Mae gennym ni hanes hir o ddiwydiant trwm. Mae hyn yn meddwl gwneud pethau fel dur a rheilffyrdd a gwaith glo. Ond does dim llawer o angen hyn bellach.



- Mae ymwelwyr yn dod â £6 biliwn i fusnesau Cymru.



- Mae arnon ni angen gwell cyflymder rhyngrwyd.



- Mae arnon ni angen bod â chyswllt da â Lloegr a gweddill Ewrop.



- Mae arnon ni angen defnyddio technoleg newydd. Gall hyn newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau yn y dyfodol.



1. Ble bydd Cymru yn tyfu



Trefi a dinasoedd

Mae arnon ni eisiau rhoi sylw i dwf yn ein trefi a'n dinasoedd. Mae ganddyn nhw swyddi da, cartrefi a gwasanaethau yn barod.



Rydyn ni'n meddwl bod canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn yn well na dechrau eto yn rhywle newydd.



Mae pobl yn byw mewn ardaloedd ble mae ganddyn nhw gyfleoedd da i gael gwaith da. A ble mae pethau sydd eu hangen arnyn nhw fel ysgolion, ysbytai a siopau.



Oherwydd hyn mae gennym ni dri phrif ardal ble mae pobl yn byw:

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd
- Bae Abertawe a Llanelli
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.



Mae'r lleoedd hyn yn bwysig i Gymru. Mae'r rhan fwyaf o dwf ar raddfa fawr i swyddi a thai yn digwydd yn y lleoedd hyn.



Cymunedau cefn gwlad

Bydd twf yng nghefn gwlad wedi'i seilio ar beth sydd ei angen a'i eisiau ar y bobl sy'n byw yno.




Mae arnon ni angen cael pobl sydd o oedran gweithio i fyw yng nghefn gwlad a'u cadw yno. Bydd hyn yn ein helpu i gadw gwasanaethau yma a helpu iddyn nhw dyfu.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn hefyd yn helpu i amddiffyn y tir yng nghefn gwlad. Yn enwedig tir ffermio pwysig. A chael gwared â'r angen i adeiladu trefi newydd mwy yng nghefn gwlad.

Y rhanbarthau




Ar gyfer y gwaith hwn mae Cymru'n cael ei rannu'n dair rhanbarth:

1. Gogledd Cymru

2. Canolbarth a De-orllewin Cymru

3. De-ddwyrain Cymru



Mae'n rhaid i bob rhanbarth gael **Cynllun Datblygu Strategol**.




Dylai rhanbarthau weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod eu cynlluniau yn cefnogi ei gilydd.



Byddwn yn edrych a oes gan bob rhanbarth **Gynllun Datblygu**.

Gogledd Cymru



Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys

- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Wrecsam.



Mae dros 700 mil o bobl yn byw yma. Ac mae dros 200 mil o bobl yn siarad Cymraeg yma.



Mae pobl yn byw ar hyd yr arfordir yn bennaf.



Rydyn ni'n meddwl y bydd arnon ni angen dros 19 mil o gartrefi newydd yn y rhanbarth hon. Fe fydd y cynllun yma yn ein helpu i wneud yn siŵr bod rhai o'r cartrefi yma yn ddigon rhad i bawb allu eu fforddio.



Bydd twf yng Ngogledd Cymru yn digwydd yn bennaf yn **Wrecsam** a **Glannau Dyfrdwy**. Byddwn yn gweithio gyda chynghorau yn Lloegr sy'n agos i'r lleoedd hyn i gefnogi twf yma.




Yr ardaloedd eraill sy'n bwysig ar gyfer twf yw:


- Caernarfon
- Bangor
- Llandudno
- Bae Colwyn
- Y Rhyl
- Prestatyn.




Mae llifogydd yn broblem fawr mewn llawer o'r lleoedd hyn. Mae'n rhaid i ni feddwl am lifogydd wrth gynllunio.



Mae'n rhaid i'r **Cynllun Datblygu Strategol** amddiffyn cefn gwlad sydd o amgylch trefi a dinasoedd. Yn enwedig o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.



Mae Caergybi yn bwysig iawn. Mae llawer o bobl yn dod i Gymru ar gwch i Borthladd Caergybi.



Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod y Porthladd y gorau y gall fod.




Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod cludiant cyhoeddus da i Ogledd-orllewin Lloegr.



Byddwn yn cefnogi cynlluniau ar gyfer **Metro** newydd yn y rhanbarth.

System cludiant yw **Metro**.



Dylai **Cynlluniau Datblygu Strategol** a **Lleol** helpu i wella teithio rhwng:

- Gogledd Cymru
- Caer
- Lerpwl
- Manceinion.




Rydyn ni'n cefnogi prosiectau ynni newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru. Dylai prosiectau ynni ddarparu swyddi, hyfforddiant a medrau.



Byddwn yn meddwl am brosiectau ynni niwclear. Ac a oes arnon ni angen gwneud ynni yn y ffordd hon. Ac a fyddai'n cael effaith ddrwg.

Canolbarth a De-orllewin Cymru



Mae Canolbarth a De-orllewin Cymru yn cynnwys:


- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Castell Nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Powys
- Abertawe.




Mae bron i filiwn o bobl yn byw yn y rhanbarth hwn. Ond mae ardaloedd yng nghefn gwlad hefyd ble does dim llawer o bobl yn byw. Dylai cynlluniau helpu i wneud cymunedau yng nghefn gwlad yn gryfach.



Rydyn ni'n meddwl y bydd angen dros 23 mil o gartrefi newydd yn y rhanbarth hwn. Fe fydd y cynllun yma yn ein helpu i wneud yn siŵr bod rhai o'r cartrefi yma yn ddigon rhad i bawb allu eu fforddio.



Bydd y prif dwf yn y rhanbarth hwn ym Mae Abertawe a Llanelli.



Dylai'r **Cynlluniau Strategol** a'r **Cynlluniau Datblygu Lleol** ddilyn **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** a chynlluniau pwysig eraill ar gyfer y rhanbarth.



Er mwyn cefnogi twf ym Mae Abertawe a Llanelli mae arnon ni angen tyfu:

- Caerfyrddin
- Llandrindod
- Y Drenewydd
- Aberystwyth
- Aberdaugleddau
- Hwlffordd
- Penfro
- Doc Penfro.




Byddwn yn cefnogi twf y porthladd yn **Aberdaugleddau**. Mae'r porthladd hwn yn bwysig. Mae olew a nwy yn cael eu hanfon yma i ddarparu ynni i bawb ledled Prydain



Mae arnon ni eisiau cael Metro Bae Abertawe. Dylai cynlluniau gefnogi hyn hefyd. Ac edrych ar ffyrdd o wneud y mwyaf o gael Metro.

De-ddwyrain Cymru



Mae De-ddwyrain Cymru yn cynnwys:


- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Casnewydd
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Bro Morgannwg.



Hwn yw'r rhanbarth mwyaf o ran faint o bobl sy'n bvw yma. Mae dros 1.5 miliwn o bobl yn byw yma. Ond hwn yw'r rhanbarth lleiaf o ran tir.



Mae hanner yr holl alw am dai newydd yng Nghymru yn y rhanbarth hwn. Rydyn ni'n meddwl y byddwn ni angen 71 mil o dai newydd yma. Fe fydd y cynllun yma yn ein helpu i wneud yn siŵr bod rhai o'r cartrefi yma yn ddigon rhad i bawb allu eu fforddio.




Dylai twf yn y rhanbarth hwn gael ei ymledu. Mae cymunedau o amgylch Caerdydd yn bwysig ar gyfer cadw'r ddinas yn lle gwych.



Byddai Metro yn helpu pobl i deithio'n haws ac yn gyflymach i mewn i Gaerdydd. A byddai'n helpu cymunedau o amgylch Caerdydd i dyfu.



Mae arnon ni eisiau gweld twf yng Nghasnewydd. Mae arnon ni eisiau defnyddio tir ac adeiladau yng Nghasnewydd sydd wedi cael eu gadael yn wag ers amser maith.




Dylai cynlluniau ar gyfer y rhanbarth i gyd gefnogi twf yng Nghasnewydd. Dylai hyn ein helpu i ysgafnhau'r pwysau am fwy o dwf yng Nghaerdydd.



Mae hanner ein holl arian yn cael ei wneud yn Ne-ddwyrain Cymru. Byddwn yn meddwl yn ofalus ynglŷn â'r ffordd y bydd ein cynlluniau yn cefnogi hyn.



Mae rhai o'r cymunedau cyfoethocaf a'r cymunedau tlotaf hefyd yn y rhanbarth hwn. Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod pobl yma'n cael yr un cyfleoedd i wneud yn dda. A chael gwasanaethau arbennig.



Mae'n rhaid i'r **Cynllun Datblygu Strategol** amddiffyn cefn gwlad. Dylai'r cynllun wneud cyswllt â chefn gwlad o amgylch Bryste.

Maes Awyr Caerdydd



Mae Maes Awyr Caerdydd yn bwysig iawn ar gyfer Cymru. Mae arnon ni eisiau tyfu Maes Awyr Caerdydd. Mae arnon ni eisiau i dair miliwn o bobl ddefnyddio Maes Awyr Caerdydd erbyn 2040.



Byddwn yn cefnogi cynlluniau i wneud y maes awyr yn fwy. Ac i wella ei adeiladau a'i wasanaethau.



Mae arnon eisiau ffyrdd haws a ffyrdd gwell i gyrraedd y maes awyr. Gan gynnwys gwell cludiant cyhoeddus i gyrraedd y maes awyr.

Parc Rhanbarthol y Cymoedd



Bwriad y parc hwn yw cael pobl i ymweld a gwneud y mwyaf o'r tir hardd hwn.



Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r parc.


primeworld
KFC
select
Nando's

2. Y ffordd rydyn ni'n cynllunio ac yn rheoli twf



Mae arnon ni eisiau i leoedd fod yn iach ble gall pobl wneud yn dda a byw bywydau gwych. Dylai lleoedd ein helpu i fod yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus.



Mae'n rhaid i leoedd fod wedi eu cynllunio'n dda fel bo pob gwasanaeth yn cysylltu â'i gilydd yn dda. Ac fel bo'n anghenion yn cael eu cwrdd mewn ffordd sy'n gofalu am ein cyfoeth naturiol a'n hamgylchedd.



Dylai mwy o bobl fedru cerdded, seiclo neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd mannau angenrheidiol.



Mae gan leoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda aer glân a llawer o **fannau gwyrdd**.

Mae **mannau gwyrdd** yn ardaloedd o dir agored. Ni chaiff neb adeiladu arnyn nhw. Mae **mannau gwyrdd** yn bwysig i les pobl.



Gall cartrefi a busnesau gael gwasanaethau pwysig fel ynni, dŵr a'r rhyngrwyd.



A dylai bod yna fannau cymdeithasu a mannau cyfarfod da.



Mae cynllunio da yn bwysig i wneud i hyn i gyd ddigwydd. Rydyn ni wedi ysgrifennu polisïau i'n helpu i reoli twf a newid mewn ffordd dda.


Twf sy'n para mewn trefi a dinasoedd



Mae arnon ni eisiau i drefi a dinasoedd gael eu trefnu'n dda o amgylch canol trefi a gwasanaethau cyhoeddus. Mae arnon ni eisiau i lawer o bobl fyw yn y mannau hyn hefyd er mwyn:



- gwneud gwell defnydd o'n tir



- rhoi cefnogaeth ar gyfer gwell gwasanaethau cyhoeddus a mwy o wasanaethau cyhoeddus fel cludiant a iechyd



- rhoi cefnogaeth i lawer o fusnesau.



Mae mannau fel ysgolion, colegau, ysbytai, siopau a swyddfeydd y cyngor yn bwysig i ni i gyd. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn hawdd eu defnyddio ac yn hawdd eu cyrraedd i bawb.



Dylai pobl fedru cerdded, seiclo neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd y mannau hyn.



Dylai gwasanaethau cyhoeddus mawr, newydd gael eu lleoli o fewn trefi a dinasoedd. Dim ond pan na fydd dewis arall y dylen nhw gael eu lleoli y tu allan i drefi a dinasoedd.

Rhoi cefnogaeth i gymunedau yng nghefn gwlad



Mae un allan o bob tri o bobl yn byw yng nghefn gwlad yng Nghymru. Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl sy'n byw yng nghefn gwlad:

- Swyddi
- Cartrefi
- Gwasanaethau
- Cyfleoedd cymdeithasol



Signal ffôn symudol

Mae ffonau symudol yn bwysig i bobl. Rydyn ni'n eu defnyddio ar gyfer llawer o bethau.



Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gennym ni signal ffôn symudol ar draws Cymru.



Byddwn yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd â signal ffôn symudol gwael neu dim o gwbl. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud hyn.

Cerbydau ynni glân



Mae cerbydau ynni glân fel cerbydau trydanol yn gollwng llai o nwyon sy'n niweidiol i'r amgylchedd.



Rydyn ni'n meddwl y bydd ar fwy o bobl eisiau gyrru ceir trydanol yn y dyfodol.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod digon o leoedd i drydanu cerbydau trydanol ar draws Cymru.

Mannau gwyrdd



Mae arnon ni eisiau:

- amddiffyn anifeiliaid a phlanhigion
- gwneud ein hamgylchedd yn gryfach
- amddiffyn mannau pwysig.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Rydyn ni'n gweithio gyda **Chyfoeth Naturiol Cymru** i ddod o hyd i fannau sy'n bwysig i'w hamddiffyn. Mae arnon ni eisiau dod o hyd i fannau fydd yn gwneud y mwyaf o wahaniaeth.



Fforest Genedlaethol

Mae arnon ni eisiau cael **Fforest Genedlaethol**. Byddwn yn dod o hyd i'r lle gorau iddi.




Mae llawer o fanteision mewn cael tiroedd coediog. Er enghraifft, maen nhw'n helpu i leihau llygredd. A lleihau'r perygl o lifogydd. Ac mae arnon ni angen mwy o dir coediog i helpu i wneud ein hamgylchedd yn gryfach.



Rydyn ni wedi gosod targedau mawr ar gyfer cael mwy o dir coediog o 2020 ymlaen. A byddai **Fforest Genedlaethol** yn ein helpu i gyrraedd y targed hwn. Gallai hefyd helpu i greu swyddi. A chael mwy o bobl i ymweld â Chymru.

Ynni glân



Mae ar bob tŷ a phob gweithle angen gwres ac ynni.



Mae arnon ni angen eu cael nhw mewn ffordd lân. Mae hyn yn meddwl mewn ffordd sydd ddim yn defnyddio pethau sy'n dod i ben. Fel glo ac olew.



Mae gennym ni dargedau mawr ar gyfer gwneud ynni glân.



Byddwn yn cefnogi ffermydd gwynt a ffermydd haul ar y tir i wneud ynni glân.




Mae ffermydd gwynt yn defnyddio peiriannau gwynt mawr i wneud ynni o'r gwynt.



Mae ffermydd haul yn defnyddio paneli solar i wneud ynni o'r haul.



Mae ffermydd gwynt a ffermydd haul yn gallu effeithio ar ein tir. Byddwn yn meddwl yn ofalus am yr effeithiau y gallan nhw gael wrth ddewis ble dylen nhw fynd.



Ac rydyn ni wedi gosod rheolau clir ynglŷn â hyn.



Ni ddylai prosiectau gwynt a haul mawr ddigwydd mewn:

- Parciau Cenedlaethol.
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.




Mae gennym ni ddiddordeb mewn bob math o ynni glân fydd yn gallu ein helpu i gyrraedd ein targedau. Gall hyn gynnwys ynni o'r môr, o'r afonydd neu o wastraff.

Rhwydweithiau Gwres




Mae **Rhwydwaith Gwres** yn grŵp o beipiau. Mae'r peipiau yn cymryd gwres o'r man ble mae'n dod a mynd ag ef i'r adeiladau.



Rydyn ni wedi enwi'r lleoedd y dylen ni ganolbwyntio arnyn nhw ar gyfer Rhwydweithiau Gwres.



Dylen ni gael Rhwydweithiau Gwres mewn cymaint o leoedd â phosibl.



Dylai unrhyw brosiectau ar raddfa fawr gael cynllun ar gyfer Rhwydweithiau Gwres. Dylai'r cynllun ddweud ai Rhwydwaith Gwres yw'r dewis gorau ar gyfer y prosiect.

Geiriau Anodd

Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw ynddo. Yr amgylchedd yw'r tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw ynddo ac arno, fel planhigion, anifeiliaid a physgod.

Cyfoeth naturiol

Mae cyfoeth naturiol yn bethau fel gwynt, yr haul, glo a haearn. Maen nhw'n dod o fyd natur a gallwn eu defnyddio ar gyfer pethau fel ynni, pŵer a bwyd.

Llygredd

Mae llygredd yn digwydd pan fydd unrhyw beth sy'n niweidio'r amgylchedd yn cael ei ollwng iddo. Er enghraifft, nwyon fel carbon.

Mannau gwyrdd

Mae mannau gwyrdd yn ardaloedd o dir agored. Ni chaiff neb adeiladu arnyn nhw. Mae mannau gwyrdd yn bwysig i les pobl.

Metro

System gludiant yw metro.

Rhanbarthau

Ar gyfer y gwaith hwn mae Cymru'n cael ei rannu'n dair rhanbarth – Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

Rhwydwaith Gwres

Mae Rhwydwaith Gwres yn grŵp o beipiau. Mae'r peipiau yn cymryd gwres o'r man ble mae'n dod ac yna mynd ag ef i'r adeiladau.

Technoleg

Technoleg yw pethau fel cyfrifiaduron, peiriannau ac offer